



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Arholiadau Aelodaeth Testun Cyflawn a Sylfaenol

Gwybodaeth gyffredinol am arholiadau'r Gymdeithas

1. Yr arholiadau

Bydd y Gymdeithas yn cynnal arholiadau ar gyfer Aelodaeth Gyflawn* ac Aelodaeth Sylfaenol* ddwywaith y flwyddyn: ym mis Ebrill (mae'r dyddiad yn dibynnu ar pa bryd y mae'r Pasg) a dydd Sadwrn cyntaf mis Hydref. (* Mae diffiniadau o Aelodaeth Gyflawn ac Aelodaeth Sylfaenol i'w cael ym mhwynt 6 isod. Cynghorir pob ymgeisydd i'w hystyried yn ofalus cyn cofrestru er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gwybod beth yw'r lefel disgwylidig.)

Cynhelir dau arholiad, 2 awr a 5 munud yr un, ar ddiwrnod yr arholiadau, y naill i'r Gymraeg a'r llall i'r Saesneg. Gall ymgeisydd ddewis sefyll un arholiad i un iaith yn unig neu sefyll y ddau arholiad.

Cynhelir yr arholiadau yn Aberystwyth (Coleg Ceredigion), yng Nghaerdydd (Adeilad Julian Hodge, Prifysgol Caerdydd) ac yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, Glynllifon (ger Caernarfon).

Mae trefn a gofynion yr arholiadau ar y lefel Gyflawn yn wahanol i'r arholiadau ar y lefel Sylfaenol. Wrth gofrestru ar gyfer yr arholiadau ar y lefel Gyflawn bydd yn rhaid i rai ymgeiswyr gyflwyno geirda gyda'r ffurflen gofrestru. Bydd pob ymgeisydd ar y lefel Gyflawn yn gorfod cyfieithu darn o ryw 300 gair yn ystod yr wythnos y cynhelir yr arholiadau ynddi.

2. Y taliadau am sefyll arholiad

- i) I aelodau'r Gymdeithas, yn ogystal â'r Cwmnïau Cydnabyddedig, y Sefydliadau Cydnabyddedig a Chyswllt, a'r Myfyrwyr Cyswllt, mae'r taliadau'n £90.00 am sefyll un papur arholiad neu £150 am sefyll y 2 bapur ar yr un diwrnod.
- ii) I bawb arall mae'r taliadau'n £105 am sefyll un papur neu £180 am sefyll y 2 bapur ar yr un diwrnod.

Nid ychwanegir TAW at y taliadau hyn.

3. Cofrestru i sefyll arholiad

Cyhoeddir dyddiadau'r cyfnod cofrestru ar wefan y Gymdeithas.

Bydd y cyfnod cofrestru yn un o 6 wythnos o leiaf. Bydd y cyfnod cofrestru yn cau am 1pm ar y dydd lau bythefnos cyn dyddiad yr arholiad. Ni chaiff neb eu cofrestru ar ôl yr amser hwn ac ni fyddwn yn derbyn ffurflenni cofrestru fydd yn ein cyrraedd yn hwyr.

Rhaid i ymgeiswyr o dramor gofrestru wythnos yng nghynt. Gwnaiff y Gymdeithas ei gorau i ymateb i gais o'r fath, ond ni all warantu dim.

Rhaid i bob ymgeisydd lenwi'r ffurflen gofrestru. Rhaid anfon ffurflen gofrestru ar wahân ar gyfer pob unigolyn fydd yn sefyll arholiad. Ni fyddwn yn cofrestru neb ar gyfer arholiad oni chawn y tâl gyda'r ffurflen gofrestru.

4. Gwybodaeth am yr arholiadau

- 4.1** Anfonir y pecyn arholiad at bob ymgeisydd o leiaf 10 diwrnod cyn yr arholiadau. Bydd y pecyn yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol am yr arholiadau.
- 4.2** Mae'r drefn arholi'n un gwbl gyfrinachol. Caiff pob ymgeisydd ei arholi'n ddiennw gan ddau farciwr yn unol â'r canllawiau arholi perthnasol. Rhoddir rhif i bob ymgeisydd ac ni ddatgelir ei enw i'r marcwyr na'r arholwyr. Cynhelir unrhyw drafodaeth ar waith ymgeisydd unigol yn ôl ei rif arholiad.
- 4.3** Rhaid defnyddio cyfrifiadur yn yr arholiadau a chyflwyno'r gwaith terfynol wedi'i deipio. Disgwylir i ymgeiswyr fod â sgiliau technoleg gwybodaeth dda. Caiff ymgeisydd ddefnyddio cyfrifiadur y ganolfan arholi neu ei liniadur ei hun yn yr arholiadau.
- 4.4** Caiff ymgeisydd ddefnyddio geiriaduron, termiaduron, cyfeirlyfrau ac unrhyw gasgliadau geirfa, p'un a ydynt yn gyhoeddiadau printiedig neu'n feddalwedd gyfrifiadurol darllen-yn-unig (a all fod ar ddisg neu gof bach). Ni chaiff ymgeiswyr rannu llyfrau nac unrhyw adnoddau eraill yn ystod yr arholiadau.
- 4.5** Ni chaiff ymgeisydd gysylltu â'r we na'r rhyngrwyd, na defnyddio e-bost, yn yr arholiadau. Golyga hyn na chaniateir defnyddio unrhyw eiriadur na rhestr termau ar-lein yn ystod yr arholiad, gan gynnwys *Geiriadur yr Academi ar-lein*, *GPC ar-lein*, 'termcymru', nac unrhyw ap.

5. Ar ôl sefyll yr arholiad

Bydd pob ymgeisydd yn cael llythyr dyfarniad a chopi o Adroddiad y Prif Arholwr o fewn deufis i ddiwrnod yr arholiad.

Gall ymgeiswyr wneud cais am adroddiad unigol ar eu gwaith. Mae trefn apelio yn erbyn dyfarniad hefyd. Codir taliadau pellach am adroddiad unigol ac am apelio.

6. Aelodaeth o'r Gymdeithas

Rhaid llwyddo yn nhrefn arholi'r Gymdeithas i ennill aelodaeth ohoni. Ym maes cyfieithu testun mae dwy lefel o aelodaeth, sef Cyflawn a Sylfaenol. Dyfernir

aelodaeth yn unol â'r iaith darged y mae'r ymgeisydd yn llwyddo ynddi. Nodir y lefel(au) o aelodaeth yn glir ar y dystysgrif aelodaeth.

Mae safon **Aelodaeth Gyflawn** yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar y cyfieithydd angen unrhyw oruchwyliaeth. Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro. Awgrymir i gyfieithydd sydd â thair blynedd o brofiad o gyfieithu'n amser-llawn, neu â phrofiad cyfatebol o gyfieithu'n rhan-amser, ymgeisio am Aelodaeth Gyflawn.

Aelodaeth Sylfaenol yw'r lefel broffesiynol sylfaenol i'r rhai sy'n cyfieithu mewn amrywiaeth o feysydd cyffredinol ac yn trafod meysydd mwy arbenigol o bryd i'w gilydd. Disgwylir i'r safon gyfateb i waith cyfieithydd sydd ar ddechrau ei yrfa ac yn gweithio dan arolygiaeth cyfieithydd profiadol ers blwyddyn a rhagor. Disgwylir iddo fedru cyfieithu deunydd darllen cyffredinol yn weddol ddidrafferth. Dylai feddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o gefndir diwylliannol y ddwy iaith.